

Ble medrwyh gael help

Gall Cyngor Sir Fynwy

- Gynnig cyngor ychwanegol ar ddiogelwch bwyd a chyngor gwasanaeth cyhoeddus arall: Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Fynwy
- Clirio priffyrdd cyhoeddus – Adran Priffyrdd Cyngor Sir Fynwy
- Clirio tir cyhoeddus yr effeithiwyd arno – Adran
- Glanhau a Gwastraff Cyngor Sir Fynwy
- Darparu sgipiau a chasgliadau sbwriel ychwanegol ar gyfer symud eiddo o dai lle bu llifogydd: Adran Glanhau a Gwastraff Cyngor Sir Fynwy
- Eich cynorthwyo i ganfod rhywle i fyw os nad oes gennych yswiriant: Adran Tai Cyngor Sir Fynwy
- Eich cynorthwyo i ganfod crefftwyr gydag enw da drwy gynllun TrustMark: Adran Safonau Masnach Cyngor Sir Fynwy
- Os yw'r llifogydd wedi effeithio ar nifer fawr o adeiladau, bydd y cyngor yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu cyfleusterau canolog i gynorthwyo pawb yr effeithiwyd arnynt. Cyhoeddir trefniadau o'r fath ar y pryd.
Cysylltu â Chyngor Sir Fynwy — gweler 'Rhifau Cyswllt Defnyddiol' a gofyn am yr adran berthnasol o'r Cyngor.

RHESTR WIRIO

- Ffonio eich cwmni yswiriant.
- Cofnodi a thynnu lluniau o'r difrod llifogydd.
- Cadw cofnod o ohebiaeth gydag yswirwyr.
- Cael crefftwr proffesiynol i wirio eich cyflenwad nwy/trydan.
- Dechrau gwaith trwsio unwaith y cytunwyd gyda'r cwmni yswiriant.
- Ailstocio cyflenwadau ar gyfer llifogydd posibl yn y dyfodol.

Rhifau Cyswllt Defnyddiol

Argyfyngau	999
Cyngor Sir Fynwy – Canolfan Gyswllt	01633 644644
Heddlu Gwent	01633 838111
Gwasanaeth Tân ac Achub	01443 232000
Argyfyngau Nwy	0800 111 999
Rhif Argyfwng Torri Pŵer	105
Argyfyngau Dŵr	0800 052 0130
Argyfyngau Carthffosiaeth	0800 085 3968

Mwy o Wybodaeth

Fforwm Genedlaethol Llifogydd ☎ 01299 403055 🌐 www.floodforum.org.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru ☎ 0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru

Cyngor ar Bopeth
🌐 www.citizensadvice.org.uk

☎ Gweler y llyfr ffôn lleol

Cymdeithas Brydeinig Rheoli Difrod
🌐 www.bdma.org.uk ☎ 01858 414278

Iechyd Cyhoeddus Cymru
🌐 www.iechydcyhoedduscymru.cymru.gig.uk
☎ 02920 227744

Trustmark
🌐 www.trustmark.org.uk ☎ 0333 555 1234

Os hoffech gael y daflen hon mewn iaith arall, braille, print bras neu yn electronig, cysylltwch â Thîm Cynllunio Argyfwng Sir Fynwy ar 01633 644091/2.



BETH I'W WNEUD OS BU LLIFOGYDD YN EICH CARTREF



**MAE'R DAFLEN HON AR GYFER
PRESWYLWYR SIR FYNWY Y MAE
LLIFOGYDD WEDI EFFEITHIO ARNYNT**

BYDDWCH YN OFALUS

Gall dŵr llifogydd fod wedi achosi difrod strwythurol i'ch eiddo. Argymhellir mai dim ond ar ôl iddo cael ei lanhau'n drwyadl a'i ddiheintio a'i adael i sychu y dylech symud yn ôl yn llwyr i'ch cartref.

Os oes gennych yswiriant, cysylltwch â'ch cwmni yswiriant. Os ydych yn rhentu, cysylltwch â'ch landlord a chwmni yswiriant cynnwys.

- Tynnu lluniau neu fideo o'r difrod, a nodi'r lefel dŵr uchel ar y waliau.
- Peidio â thafu unrhyw eitemau a ddifrodwyd na gwneud unrhyw waith clirio neu drwsio nes bod eich cwmni yswiriant wedi ei gymeradwyo.
- Cadarnhau gyda'ch cwmni yswiriant y byddant yn talu am unrhyw wasanaethau/offer y gallwch fod eu hangen
- Gwirio fod eich cartref yn ddiogel. Peidiwch â gadael drysau heb eu cloi pan nad oes neb yn eich cartref
- Gall pobl alw i gynnig gwneud gwaith. Gofynnwch am ddull adnabod os nad ydych yn eu hadnabod. Mae holl staff cwmnïau nwy, trydan, Awdurdod Dŵr a staff y cyngor yn cario dull adnabod. Gwiriwch dystlythyrau bob amser a pheidio talu ymlaen llaw..
- Gall dŵr llifogydd fod yn gynnwys carthion a chemegau – gwisgwch ddillad diogelu wrth glirio neu lanhau eich cartref – esgidiau dal dŵr, menig ac oferols.



Cyngor ar Ddiogelwch Nwy/Trydan

- Troi eich cyflenwad dŵr a thrydan bant a **PHEIDIO** eu troi yn ôl nes iddynt gael eu gwirio gan grefftwr cymwys
- Gall dŵr llifogydd fod wedi effeithio ar weithrediad diogel eich cyfarpar nwy. Mae'n hanfodol bwysig am resymau diogelwch i beiriannydd wedi cofrestru gyda Gas Safe i archwilio'r cyfarpar.
- Os bu unrhyw offer cyflenwi trydan dan ddŵr, cysylltwch â'ch cyflenwr trydan i ddweud am yr amgylchiadau a gofyn am eu cyngor
- Chi sy'n gyfrifol am gael trydanwr cymwys i wirio'r holl wifrau trydan yn eich cartref, cyn troi'r prif switsh yn ôl ymlaen.

Sychu eich Cartref

- Cyn dechrau glanhau eich eiddo, mae angen symud unrhyw ddŵr sy'n dal i sefyll. Efallai y gall Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wneud hyn i chi, er y gallant godi tâl am hynny. Yn lle hynny, gellid llogi pypiau gan gyflenwyr lleol – edrychwch yn y Tudalennau Melyn i gael rhifau.
- Os oes gennych wres canolog nwy neu olew a bod peiriannydd wedi ei wirio, trowch ef ymlaen. Cadwch y thermostat rhwng 20-22 gradd ar gyfer sychu cyson.
- Mae awyriant da yn hanfodol i alluogi'r gwlybanaeth i ddianc. Cadwch ddrysau a ffenestri ar agor gymaint ag sy'n bosibl yn ystod y dydd. Gallwch hefyd ddefnyddio peiriannau dadleithydd i gynorthwyo i symud anwedd dŵr.
- Gall gymryd miisoedd lawer i sychu eiddo lle bu llifogydd difrifol.
- Gall Cyngor Sir Fynwy ddarparu sgiliau a chasgliadau sbwriel ychwanegol ar gyfer eitemau a ddifrodwyd gan lifogydd sydd angen eu taflu.



Clirio eich Cartref ar ôl Llifogydd

- Yr un ffordd fwyaf effeithlon o atal haint yw golchi eich dwylo ar ôl cyffwrdd ag unrhyw beth a fu mewn cysylltiad gyda dŵr llifogydd neu laid.
- Tynnu celfi meddal a ffitiadau a gafodd eu difrodi tu hwnt i drwsio.
- Tynnu cymaint o laid a dŵr brwnt ag sydd modd.
- Golchi pob wyneb gyda dŵr twym a sebon nes yn amlwg yn lân a diheintio pob wyneb gyda diheintydd yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurydd
- Dylai ardaloedd paratoi bwyd, cypyrddau bwyd ac oergelloedd gael eu glanhau gyda dŵr twym a sebon yna eu diheintio yn defnyddio cannydd.
- Tafu pob bwyd wedi halogi, yn cynnwys unrhyw beth sydd wedi dadmer.
- Gadael i bob wyneb sychu – bydd hyn hefyd yn helpu i ladd germau.
- Cysylltu ag lechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Fynwy i gael mwy o gyngor iechyd cyhoeddus.

Tai Dros Dro

Gall fod angen i chi symud i lety dros dro pan fod eich eiddo yn cael eich drwsio. Dylai eich cwmni yswiriant ddarparu hyn i chi. Os nad oes gennych yswiriant, efallai y gall Cyngor Sir Fynwy eich cynorthwyo i ganfod rhywle i fyw. Cysylltwch â'r Tim Digartrefedd yn yr Adran Tai.

Cael Gwared â Sachau Tywod

Os cawsoch sachau tywod gan Gyngor Sir Fynwy, chi wedyn sy'n gyfrifol am gael gwared â nhw neu eu cadw rhag ofn bydd llifogydd yn y dyfodol.